Eisteddfod Gadeiriol Y Llungwyn Llanuwchllyn 2018

Cynhaliwyd Eisteddfod Y Llungwyn 2018 ar 26 o Fai yn y Neuadd Bentref ar benwythnos braf. Yn unol â'r drefn newydd, cafwyd Pabell Lên yn ystod y bore Gwener yn Ysgol O. M. Edwards, pryd y traddodwyd beirniadaethau'r gwaith cartref cynradd. Yna, ar y Dydd Sadwrn bu cystadlu brwd a graenus yn ystod cyfarfodydd y bore, prynhawn a'r hwyr. Braf iawn oedd gweld cynulleidfa deilwng a gwerthfawrogol wedi dod i fwynhau gwledd o gystadlu.

Ein beirniaid am eleni ac yn derbyn ein diolch diffuant oedd Nia Wyn Jones, Llanychan (Cerdd), Geunor Roberts, Llanymawddwy (Cerdd Dant), Eirian Jones, Carrog (Adrodd), Y Prifardd Rhys Iorwerth (Barddoniaeth), Erin Jones, Pentrefoelas (Rhyddiaith Cynradd ac Uwchradd), Gwen Edwards, Parc (Rhyddiaith Agored) a Mari Elain Roberts, Llanuwchllyn (Arlunio a Chrefft). Y llywyddion gwadd oedd Delyth Jones, Gellioedd ac Edward Morus Jones, Llangristiolus. Diolch yn fawr i'r ddau ohonynt am dderbyn y gwahoddiad i ddod yn ôl atom i Lanuwchllyn am y dydd, am eu hanerchiadau hwyliog a diddorol a rhoddion anrhydeddus at drysor yr Eisteddfod.

Diolch i Dilys Ellis-Jones, Siôn Tudor Jones, Eirian Roberts, Euros Roberts a Carwyn Siddall am arwain y cyfarfodydd mor esmwyth a didrafferth. Diolch yn arbennig i'r cyfeilyddion, sef Siwan Davies, Elain Wyn Jones, Eirian Owen ac Iwan Owen fu'n gweithio mor galed yn ystod y cyfarfodydd.

Yr oedd Cadair yr Eisteddfod eleni yn rhoddedig gan deulu Dyfnant er cof annwyl am Arthur Edwards, a diolch iddynt am eu haelioni ac am Gadair mor hardd. Braf oedd cael clywed gan Y Prifardd Rhys Iorwerth wrth draddodi o'r llwyfan fod teilyngdod o blith y 7 ymgais. Tudur Puw o Borthmadog gipiodd Cadair y Llungwyn, am gerdd ar y testun "Dolen". Cafwyd cyfarchion barddonol gan Beryl H. Griffiths a Haf Llewelyn. Diolch i Carwyn am fod yn Feistr y Ddefod a diolch arbennig i Gwynant Roberts ac Alejandro Jones am eu dehongliad gwefreiddiol o Gân y Cadeirio.

Diolch yn fawr i Gwyneth Parry am addurno'r llwyfan mor hardd gyda blodau, ac i Nia Cyfnod am fod yng ngofal y bwyd, gan sicrhau fod digon o luniaeth blasus i bawb trwy gydol y dydd. Bu nifer wrthi yn ddiwyd cyn yr Eisteddfod yn gwerthu Tocynnau Noddwr - diolch yn fawr iawn i'r gwerthwyr ar prynwyr! Diolch hefyd i'r stiwardiaid am werthu tocynnau wrth y drws a chadw trefn trwy gydol y dydd ac i Cadi, Mari a Seren fu'n ngofal y rhubanau ar ochr y llwyfan.

Gwerthfawrogwn unwaith yn rhagor gymorth a chefnogaeth Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen, Cronfa'r Degwn Cyngor Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Dr D. Tecwyn Lloyd. Diolch yn arbennig hefyd i Nerys a Nia (Henryd gynt) ac i deulu Gwernhefin am eu caredigrwydd arferol a'u rhoddion gwobrau.

Yn dilyn llwyddiant y gweithdai sydd wedi eu cynnal dros y blynyddoedd fe gomisiynodd y Pwyllgor weithdai rhyddiaith eleni gyda chymorth Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Cymuned Llanuwchllyn i rai o ddisgyblion Ysgol O. M Edwards ac Ysgol y Berwyn. Braf yw cael dweud fod y gweithdai wedi bod yn llwyddiant unwaith eto gan ddenu nifer fawr o gyfansoddiadau i'r Adran Ryddiaith. Yr ydym yn hynod ddiolchgar i Manon Steffan Ros am fod yng ngofal y gweithdai ac am ysbrydoli ein llenorion ifanc i gystadlu a chefnogi'r Eisteddfod.

Diolch yn ôl yr arfer i Lywydd y Pwyllgor Gwenfair D. Jones, ac yn arbennig i'r Trysorydd sef Dylan Evans am ei waith trylwyr a diymhongar a gweddill aelodau'r pwyllgor fu'n dewis darnau a chynorthwyo – braf fyddai gweld ambell wyneb newydd yn yr Hydref i gefnogi a chynorthwyo gyda gwaith y pwyllgor. Rhaid hefyd yw estyn ein gwerthfawrogiad yn ôl yr arfer i'r Pennaeth, staff a chymhorthyddion Ysgol O. M. Edwards am eu cefnogaeth a chydweithrediad parod bob amser.

Yn olaf carem fel Pwyllgor ddiolch i'r cystadleuwyr, rhieni ac hyfforddwyr o bell ac agos ddaeth i gystadlu a chefnogi Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn eto eleni. Dyma'r buddugwyr (o ardal Llanuwchllyn a Parc oni noder yn wahanol): -

Cerdd

Meithrin: 1af Elen Aur Roberts, 2il Cati Pritchard, 3ydd Tomi Prys Davies; **Derbyn:** 1af Daniel Jones, 2il Enoc Ellis-Edwards, 3ydd Dafi Pritchard; **Bl. 1 a 2:** 1af Brychan Edwards: 2il Jac Jones a Heti Ellis-Edwards, 3ydd Jini Rees-Roberts a Deio Edwards; **Bl. 3 a 4:** 1af Lliwen Jones, 2il Gruff Davies, 3ydd Cadi Williams; **Bl. 5 a 6:**

1af Lowri Jarman, 2il Erin Llwyd, 3ydd Owen Dafydd Roberts; **Deuawd dan 12:** 1af Guto a Cadog Edwards; **Côr neu barti Plant dan 12 oed:** 1af Côr yr Aran; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Rhys Llewelyn Williams, 2il Elain Iorwerth, Trawsfynydd, 3ydd, Ywain Jones; **19 - 25 oed:** 1af Sion Eilir Roberts, Pwllglas, **Canu Emyn Agored:** 1af Tecwyn Jones, Machynlleth; 2il Sion Eilir Roberts; 3ydd Aled Jones, Comins Coch; **Unawd Gymraeg:** 1af Sion Eilir Roberts, 2il Arfon Griffiths, 3ydd Tecwyn Jones ac Efan Williams, Lledrod; **Y Brif Unawd:** 1af Efan Williams, 2il Arfon Griffiths, 3ydd Sion Eilir Roberts; **Prif Gystadleuaeth Gorawl, Cymysg, Meibion neu Ferched:** 1af Parti Peniel; **Unawd ar unrhyw offeryn cerdd Bl. 4, 5 a 6:** 1af Teilo Daley-Tyson, 2il Lowri Jarman, 3ydd Casi Elin Roberts; **Unawd ar unrhyw offeryn cerdd Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Cynan Griffiths, Y Felinheli, 2il Osian Daley-Tyson, 3ydd Elain Iorwerth.

Cerdd Dant
Bl. 1 a 2: 1af Brychan Edwards, 2il Feancesca Edwards, Llanelidan, 3ydd Bela Davies, Betws Gwerfyl Goch**; Bl. 3 a 4:** 1af Guto Edwards a Cadi Williams, 2il Gruff Davies, 3ydd Rhys Tomos Roberts; **Bl. 5 a 6:** 1af Erin Llwyd, Glanrafon, 2il Lowri Jarman, 3ydd Cadog Edwards; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Beca Jarman, 2il Rhys Llewelyn Williams ac Ywain Jones, 3ydd Elain Iorwerth; **Côr neu Barti dan 12 oed:** 1af Côr Carndochan; **Parti dan 16 oed:** 1af Parti'r Aran; **Unawd Agored:** 1af Sion Eilir Roberts, 2il Efan Williams.

Adrodd
Meithrin: 1af Daniel Jones, 2il Bedwyr Nereus Evans, 3ydd Beca Jones; **Derbyn:** 1af Grug Gwent, 2il Elen Aur Roberts, 3ydd Mabon Jones a Math Aran Jones; **Bl. 1 a 2:** 1af Brychan Edwards, 2il Elias Jones, 3ydd Ifan Jones a Harri Owen; **Bl. 3 a 4:** 1af Gruff Davies, 2il Guto Edwards, 3ydd Cadi Williams; **Bl. 5 a 6:** 1af Lowri Jarman, 2il Cadog Edwards, 3ydd Erin Llwyd; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Beca Jarman; 2il Elain Iorwerth a Cadi Jones, Glanrafon, 3ydd Lois Gwynedd, Glanrafon. **Cyd-Adrodd dan 12 oed:** 1af Parti'r Aran; **Cyd-Adrodd dan 16 oed:** 1af Parti'r Aran; **Adrodd Agored:** 1af Rhys Jones, Dinmael; **Cyd-adrodd Agored:** 1af Rhiannedd y Cwm.

Barddoniaeth
Bl. 3 a 4: 1af Lliwen Jones, 2il Cadi Williams, 3ydd Ilan Edwards; **Bl. 5 a 6:** 1af Cati Llwyd-Roberts, 2il Mari Ifan Davies, 3ydd Efan Williams; **Cadeirio:** Tudur Puw, Porthmadog; **Telyneg:** 1af Judith Morris, Penrhyn-coch, Aberystwyth, 2il Gwilym Hughes, Mynytho, 3ydd Megan Richards; **Tri Thriban:** 1af Awel Jones; **Englyn:** 1af John Ffrancon Griffith, Abergele, 2il Alan Jones Evans, Rhyduchaf, 3ydd John Ffrancon Griffith; **Cân:** 1af Megan Richards, Aberaeron, 2il Les Barker, Bwlchgwyn, Wrecsam, 3ydd Megan Richards.

Rhyddiaith
Derbyn: 1af Cati Pritchard, 2il Ania Jones, 3ydd Idris Edwards; **Bl. 1 a 2:** 1af Heti Ellis-Edwards, 2il Caio Jones, 3ydd Amy Stewards; **Bl. 3 a 4:** 1af Beca Dwyryd, Porthmadog, 2il Elis Dafydd, 3ydd Cadi Williams; **Bl. 5 a 6:** 1af Lleucu Hughes, 2il Lliwen Davies, 3ydd Dyfan Jones; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Rhys Llewelyn Williams, 2il Catrin Davies, Parc, 3ydd Gruffudd ab Owain, Y Bala; **Dan 21 oed:** 1af Mared Elenid Jones, 2il Rhys Llewelyn Williams; **Agored: Sgets:** 1af Eirlys Wynn Tomos, Rhuthun, 2il G R Williams, Groeslon; **Agored: Ysgrif:** 1af Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys, RCT, 2il Eirlys Wynn Tomos, 3ydd Iona Evans, Pandy Tudur; **Y Prif Draethawd:** 1af Arwel Lloyd Jones.

Arlunio
Meithrin (Cylch): 1af Willow Smith, 2il Leah Jones, 3ydd Tegid Gwent; **Meithrin (Ysgol):** 1af Bedwyr Evans, 2il Enoc Ellis-Edwards, 3ydd Ifan Jones; **Derbyn:** 1af Osian Rowlands, 2il Marged Aur Horan, 3ydd Cati Pritchard; **Bl. 1 a 2**: 1af Amy Stewards, 2il Annie Blain, 3ydd Ela Evans; **Bl. 3 a 4:** 1af Cadi Williams, 2il Elis Dafydd, 3ydd James Stewards; **Bl. 5 a 6:** 1af Lliwen Davies, 2il Mari Ifan Davies, 3ydd Cati Llwyd-Roberts.

Crefft
Meithrin: 1af Enoc Ellis-Edwards, 2il Dafi Pritchard, 3ydd Bedwyr Nereus Evans; **Derbyn:** 1af Tomi Prys Davies, 2il Emyr Dafydd, 3ydd Mabon Jones; **Bl. 1 a 2:** 1af Cywaith Dosbarth 1 a 2, 2il Ela Evans, 3ydd Cywaith Dosbarth 1 a 2; **Bl. 3 a 4:** 1af Dyfan Pugh, 2il Elis Dafydd, 3ydd Calum Jones; **Bl. 5 a 6:** 1af Mari Ifan Davies, 2il Maria Durak, 3ydd Adam Smith, Y Bala; **Bl. 7, 8, 9 a 10:** 1af Osian Daley-Tyson.

<u>Tlysau a Thariannau</u>
Barddoniaeth Cynradd: Cati Llwyd-Roberts; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Ryddiaith dan 21 oed ac Agored (Tlws er côf am Mr a Mrs Gwyndaf Davies):** Mared Jones; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Adrodd dan 16 oed**

(Cwpan er côf am Eilir Wyn Parry, Y Wern): Beca Jarman; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Cerdd neu Gerdd Dant (Cwpan er côf am Mrs Enid Pierce Jones):** Cynan Griffiths**; Cystadleuydd mwyaf addawol yn yr Adran Cerdd, Cerdd Dant neu Adrodd rhwng 16 a 30 oed (Cwpan er côf am Elin Mair Jones):** Sion Eilir Roberts; **Canu Emyn Agored (Cwpan Goffa D. Lloyd Jones):** Tecwyn Jones.